CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Asesiad Effaith ar y Gymuned

**Ymgynghoriad ar y cynnig i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022 drwy:**

- **Uno Meithrinfa Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode; ac**
- **Uno Meithrinfa Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau ac ieithoedd cymunedol eraill fel bo angen. Cysylltwch â ni ar 01446 700111 i drefnu hyn.

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3
Y Cyd-destun Cenedlaethol ........ 4
Y Cyd-destun Polisi Lleol ........ 4
Yr Heriau Presennol ........ 4
Proffil Cymunedol ........ 5
Asesiad Effaith ........ 6
Crynodeb Sgorau ........ 11
Casgliadau ........ 11

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn y Fro yn cael pob cyfle i ennill y canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon mae'n hanfodol inni sicrhau bod ysgolion yn parhau yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, ac yn meddu ar yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn addas i'r cymunedau dan sylw, ac mae dyletswydd o ofal ar y Cyngor i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu'r rhai y byddant yn effeithio arnynt. Gweledigaeth yw hon na ellir ei gwireddu ond drwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu.

Y cynigion i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022:

**Cynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bwthyn Bute ac Ysgol Gynradd Evenlode drwy;**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Evenlode i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Bwthyn Bute i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

**Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan drwy;**

- Newid oedran isaf y disgyblion yn ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 lle meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Cogan i ddarparu lle ar gyfer y 96 lle meithrin rhan-amser; a
- Dod ag Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo'r holl staff a disgyblion yn y cyfnod meithrin i fod dan lywodraeth Ysgol Cogan o fis Medi 2022.

Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeiladau presennol gyda'r ddau gynnig.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried dan adran 2.1 a 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig ysgol, sy'n cynnwys newid ystod oedran ysgol o flwyddyn neu ragor.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r canllawiau statudol allweddol i awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer rhaglenni cymunedau'n gyntaf neu raglenni dilynol.

## Y Cyd-destun Polisi Lleol

Gan adleisio'r polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2020-25 i gyflawni'r weledigaeth o – **'Gydweithio ar gyfer dyfodol mwy disglair'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni'r amcan o 'gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy gan godi safonau cyflawni yn gyffredinol drwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Credwn, er mwyn cyflawni hyn, ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi addysgu a deilliannau dysgu drwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'r pwrpas sy'n cwrdd ag anghenion addysg yr oes fodern hon. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a'u bod yn gallu gwireddu eu potensial llawn.

## Yr Heriau Presennol

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n darparu:

- Un drefn lywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb am bob cyfnod o addysg ym mhob ysgol gynradd.
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol drwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod o addysg gynradd.
- Un casgliad o bolisïau ar draws yr holl grwpiau blwyddyn, yn cynnwys meysydd arfer gorau yr ysgolion unigol.
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod.

- Creu arbedion refeniw cysylltiedig â chostau cynyddol rhedeg ysgolion meithrin annibynnol fyddai’n rhyddhau cyllid ychwanegol i fformiwla gyllido’r ysgol yn gyffredinol.

- Cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy arbedion maint a gwaith caffael cydgysylltiedig.

- Symleiddio cyfathrebu rhwng y rhieni a’r staff gydag un pwynt cyswllt drwy gydol holl gyfnodau addysg gynradd.

## Proffil Cymunedol

Mae’r pedwar lleoliad addysgol y mae’r cynigion yn effeithio arnynt o fewn ardal Penarth. Mae Penarth yn dref glan môr gyfoethog ac mae wedi cadw nifer helaeth o adeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd eu pensaernïaeth yn llawer o rannau traddodiadol y dref.

Ar hyn o bryd mae 11 o ysgolion cynradd a meithrinfeydd ym Mhenarth a’r ardal gyfagos:

| Ysgol | Math | Iaith | Lleoedd cynradd | Lleoedd meithrin (lleoedd rhan-amser) |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Albert** | Cymunedol | Saesneg | 385 | 72 |
| **Meithrinfa Bwthyn Bute** | Cymunedol | Saesneg | D/b | 96 |
| **Meithrinfa Cogan** | Cymunedol | Saesneg | D/b | 100 |
| **Ysgol Gynradd Cogan** | Cymunedol | Saesneg | 210 | D/b |
| **Ysgol Gynradd Evenlode** | Cymunedol | Saesneg | 420 | D/b |
| **Ysgol Gynradd Fairfield** | Cymunedol | Saesneg | 315 | 60 |
| **Ysgol Gynradd Llandochau** | Cymunedol | Saesneg | 210 | 30 |
| **Ysgol Pen y Garth** | Cymunedol | Cymraeg | 420 | 114 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig St Joseff** | Gwirfoddol a gynorthwyir | Saesneg | 210 | 48 |
| **Ysgol Gynradd Sili** | Cymunedol | Saesneg | 350 | 64 |
| **Ysgol Gynradd Fictoria** | Cymunedol | Saesneg | 420 | 64 |

Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute wedi ei lleoli yn ward 3 Awstin Sant ym Mhenarth. Mae poblogaeth ward Awstin Sant yn gyffredinol yn 7,351 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Mae Ysgol Gynradd Evenlode wedi ei lleoli yn ward 2 Plymouth ym Mhenarth. Mae poblogaeth ward Plymouth yn gyffredinol yn 5,786 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Mae Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan wedi eu lleoli yn ward 2 Cornerswell ym Mhenarth. Mae poblogaeth ward Cornerswell yn gyffredinol yn 5,366 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

| **Ardal Etholiadol Bro Morgannwg** | **Cod LSOA** | **Safle cyffredinol yng Nghymru (o 1909)** | | **Safle cyflogaeth (o 1909)** | | **Safle mynediad at wasanaethau (o 1909)** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Safle** | **% (Lleiaf/mwyaf o amddifadedd)** | **Safle** | **% (Ll/M o A)** | **Safle** | **% (Ll/M o A)** |
| Awstin Sant 3 | W01001125 | 1643 | 50% LloA | 1501 | 50% LloA | 1909 | 50% LloA |
| Plymouth 2 | W01001115 | 1715 | 50% LloA | 1506 | 50% LloA | 1076 | 50% LloA |
| Cornerswell 3 | W01001076 | 1189 | 50% LloA | 1296 | 50% LloA | 1065 | 50% LloA |

(Data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD))

Fel y dengys y tabl uchod, lefelau isel o amddifadedd sydd yn y wardiau. Yn gyffredinol maent o fewn y 50% o wardiau â'r lleiaf o amddifadedd yng Nghymru.

## Asesiad Effaith

Mae'r adran hon o Asesiad yr Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon yn cynrychioli ciplun o'r sefyllfa bresennol. Dogfen sy'n esblygu yw'r asesiad effaith fydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y broses statudol. Defnyddir yr adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori i roi mwy o wybodaeth i mewn i Asesiad yr Effaith ar y Gymuned, a gyflwynir i'r Cabinet fel rhan o Adroddiad yr Ymgynghoriad.

Nodwyd wyth mesur allweddol:

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI1 | Mae'r plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Y gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgwricwlaidd |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu gan yr ysgol a'r gweithgaredd yn cael ei gynnal o fewn adeiladau'r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |

| | |
|---|---|
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau cludiant |

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a rhoddwyd sgôr yn amrywio o -3 i +3 ar sail cydbwysedd y dystiolaeth oedd ar gael.

| Sgôr y mesur | Asesiad y mesur |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad canolig |
| -1 | Ychydig o ddirywiad |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Ychydig o welliant |
| 2 | Gwelliant canolig |
| 3 | Gwelliant mawr |

**Effeithiau ar y Gymuned Leol**

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Cynigion |
|---|---|---|---|
| CI1 | Mae'r plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 0 | Mae Ysgol Feithrin Cogan yn cynnig darpariaeth feithrin i dalgylch Ysgol Gynradd Cogan.<br><br>Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn cynnig darpariaeth feithrin i Ysgol Gynradd Evenlode.<br><br>Ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu. |
| CI2 | Y gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgwricwlaidd | 0 | Cynigir y bydd unrhyw wasanaethau cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd gan y lleoliadau addysgol yn parhau.<br><br>Enghreifftiau o wasanaethau a ddarperir ar gyfer y gymuned:<br>• Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn gweithio gyda meithrinfeydd preifat lleol i ddarparu 'gofal cofleidiol'.<br>• Mae Ysgol Feithrin Cogan wedi darparu dosbarthiadau addysg i oedolion, megis cymorth cyntaf a gwneud gemwaith. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 0 | Gan y bydd y meithrinfeydd yn aros yn eu lleoliad presennol, ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu.<br><br>Enghraifft o gyfleusterau cymunedol a ddefnyddir gan yr ysgolion:<br>• Mae Ysgol Feithrin Bwthyn Bute yn defnyddio gardd gymunedol gerllaw y safle<br>• Mae Ysgol Feithrin Cogan yn defnyddio cae mawr gerllaw y safle a Chanolfan Hamdden Penarth |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu gan yr ysgol a'r gweithgaredd yn | 0 | Gan y bydd y meithrinfeydd yn aros ar eu safleoedd presennol, ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu.<br><br>Enghraifft o gyfleusterau cymunedol a ddarperir ar y safleoedd: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael ei gynnal o fewn adeiladau'r ysgol | | • Mae Ysgol Gynradd Evenlode yn gosod neuadd yr ysgol allan ar gyfer gofal plant, dosbarthiadau ymarfer, coginio ac arlunio |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 0 | Gan y bydd y meithrinfeydd yn aros ar eu safleoedd presennol, ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 0 | Gan y bydd y meithrinfeydd yn aros oddeutu'r nifer presennol o leoedd, ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd ar gyfer gwell datblygiad proffesiynol ar draws holl gyfnodau addysg gynradd. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 0 | Gan y bydd y meithrinfeydd yn aros ar eu safleoedd presennol gydag oddeutu'r un nifer o leoedd, ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu.<br><br>Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.362 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i gefnogi ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Os caiff y cynigion eu cymeradwyo, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ail-leoli'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode ar un safle. Bydd y Cyngor yn cynnal asesiad dichonoldeb llawn a bydd unrhyw gynlluniau yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio. |
| CI8 | Trefniadau cludiant | 0 | Gan y bydd y meithrinfeydd yn aros ar eu safleoedd presennol gydag oddeutu'r un nifer o leoedd, ni fydd hyn yn newid os caiff y cynigion eu gweithredu.<br><br>Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.362 miliwn fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i gefnogi ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Os caiff y cynigion eu cymeradwyo, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ail-leoli'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode ar un safle. Bydd y Cyngor yn cynnal asesiad dichonoldeb llawn a bydd unrhyw gynlluniau yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio.<br><br>Byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hyn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dadansoddiad llwybr clir i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd i'r holl wasanaethau brys. Byddai hyn hefyd yn cynnwys asesu llwybrau cerdded diogel. Byddai'r asesiad trafnidiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd. |

## Crynodeb Sgorau

| Cyf. | Y Gymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 0 |
| CI2 | 0 |
| CI3 | 0 |
| CI4 | 0 |
| CI5 | 0 |
| CI6 | 0 |
| CI7 | 0 |
| CI8 | 0 |
| Sgôr gyfartalog | 0 |

## Casgliadau

Mae’n debygol mai niwtral fyddai effaith y cynnig ar y gymuned leol ar draws 8 o’r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, mae’n debygol mai niwtral fyddai effaith y cynnig ar y gymuned leol.